


# Llwybrau'r Plant

Gan J. Rees Jones



# LLWYBRAU'R PLANT

GAN

J. REES JONES

Seven Sisters


Yr Ail Lyfr

Hughes a'i Fab  
a'r  
Cwmni Cyhoeddi Addysgol,  
Wrecsam a Chaerdydd

1948

## CYNNWYS

Pennod	Tudalen
1. Rhedeg i'r Ysgol . . . . .	3
2. Dosbarth Megan . . . . .	7
3. Dillad Newydd . . . . .	11
4. Chwarae . . . . .	15
5. Gwerthu Llaeth . . . . .	19
6. Y Forwyn Fach . . . . .	23
7. Bachgen ar Goll . . . . .	27
8. Tynnu Llun . . . . .	30
9. Wedi Blino . . . . .	34
10. Y Picnic . . . . .	38
11. Am dro i'r Wlad . . . . .	42
12. Y Nyth . . . . .	46



### I. RHEDEG I'R YSGOL.

1. "Trefor, y mae'n amser iti godi o'r gwely." "O'r gorau, mam, yr wyf i'n codi ar unwaith."

2. Ond nid yw Trefor yn codi. Y mae ef yn agor ei lygaid, yn troi ar ei ochr arall, ac yn cysgu'n ôl.

3. "Trefor, a wyt ti'n codi?"  
"Ydwyf, mam, yr wyf yn dod i lawr ar unwaith."

4. Ond nid yw Trefor yn codi ar unwaith. Ust! beth yw'r sŵn yna? Dyna gloch yr ysgol yn canu. Y mae Trefor yn ei chlywed hefyd.

5. Y mae ef yn neidio o'r gwely, ac yn gwisgo ei drowsus a'i hosanau. Yna y mae'n rhedeg i lawr dros y grisiau'n gyflym.

6. Nid oes ganddo amser i ymolchi yn lân, ond y mae'n dodi dŵr ar ei ddwylo a'i wyneb, ac yn eu sychu â'r tywel.

7. Nid yw ef yn brwsio'i wallt, ond wrth wisgo'i got a'i wasgod, y mae'n galw ar ei fam.

4

8. "Mam, dewch â thamaid o fara 'menyn i mi gael bwyta ar fy ffordd i'r ysgol."

9. "Rhaid iti gael dy frecwast yn iawn, Trefor." "Na, nid oes amser gennyf. Y mae'r gloch gyntaf yn canu'n awr."

10. Y mae Trefor yn cymryd tamaid o fara 'menyn oddi ar y ford ac yn rhedeg allan drwy ddrws y ffrynt heb ddweud "Bore da" wrth ei fam.

11. Nid yw ef yn cau'r drws ond y mae'n rhedeg yn gyflym i lawr dros y pafin, â'i fara 'menyn yn un llaw a'i gap yn y llaw arall.

5

12. Nid oes un bachgen nac un ferch arall yn y stryd. Y mae pawb wedi mynd i'r ysgol.

13. Ust! dyna'r gloch yn canu eto. Yr ail gloch yw hon ac y mae Trefor yn rhedeg yn fwy cyflym.

14. Dacw'r ysgol, a'r plant yn sefyll wrth y drws. Dacw'r meistr yn dod allan, a'r plant yn dechrau mynd i mewn.

15. Y mae Trefor yn dod at ddrws yr ysgol pan mae'r bachgen olaf yn mynd i mewn. Y mae'r meistr yn ei weld ac yn dweud wrtho,

16. "Trefor, rhaid iti fynd i'r gwely'n gynnar heno, er mwyn iti fod mewn pryd bore yfory."



## 2. DOSBARTH MEGAN.

1. Dyma ddosbarth Megan. Saith sydd yn y dosbarth, pedwar bachgen a thair merch.

2. Enwau'r bechgyn yw Bili, Goli, Jac a Sambo, ac enwau'r merched yw Marged, Siwsi a Nel.

3. Y mae gan Jac ddillad fel dillad morwr—dillad glas. Y mae Jac hefyd yn gwisgo'i het yn yr ysgol.

4. Merch fach bert yw Siwsi. Y mae ganddi ddau lygad glas, dwy foch goch a gwallt golau.

5. Merch fach o Gymru yw Marged, ac y mae hithau'n gwisgo'i het ddu, dal, yn yr ysgol. Y mae ganddi ffedog bert hefyd.

6. Nid o Gymru y mae Goli a Sambo'n dod. Dau fachgen bach o wlad arall ydynt. Y mae wyneb du a gwallt du fel y frân gan y ddau. Y mae gan Sambo ddwy wefus goch, ac y mae bob amser yn chwerthin.

7. Brawd a chwaer yw Bili a Nel. Y mae gwallt du gan y ddau, ac wyneb gwyn. Y mae llygaid brown gan y ddau, ac y mae gan Nel ffrog sidan wen.

8. Dyma ddosbarth tawel yw hwn. Nid oes neb yn symud, ac nid oes neb yn siarad. Y mae pawb yn eistedd i fyny, ond y mae Sambo'n chwerthin bob amser.

9. Y mae Megan, yr athrawes, yn sefyll o flaen y dosbarth. Y mae ganddi fwrdd du a sialc. Nid yw hi'n ysgrifennu ar y bwrdd du, ond y mae'n siarad â'r plant.

10. "'Nawr, Sambo, rhaid iti beidio â chwerthin o hyd. Nid

yw'r plant eraill yn chwerthin.  
Bachgen drwg iawn wyt ti, Sambo."

11. Ond y mae Sambo'n  
chwerthin o hyd, ac y mae Megan  
yn mynd ymlaen ato i'w gosbi.

12. Wrth weld Megan yn dod  
y mae ofn ar Nel ac y mae hi'n  
cwmpo.

13. "Dyna ti, Sambo, arnat ti  
mae'r bai fod Nel fach wedi  
cwmpo. Gadewch imi eich codi,  
Nel, ac fe roddaf Sambo yn y  
cwpwrdd."

14. Y mae Megan yn edrych ar  
Nel, ond y mae hi wedi cau ei  
llygaid. Wel! Wel! y mae Nel  
wedi cysgu.



### 3. DILLAD NEWYDD.

1. "Y mae eisiau dillad newydd  
arnat ti, Tom, i gael mynd i'r  
tê parti, ac fe awn i'r dref ddydd  
Sadwrn."

2. Y mae Tom a'i fam yn mynd  
i ben y stryd i ddal y bws. Dacw'r  
bws yn dod. Bws mawr, coch

ydyw. Y mae Tom yn codi'i law, a'r bws yn aros.

3. Wedi dod i'r dref, y mae Tom a'i fam yn mynd i mewn i siop ddillad fawr. Y mae'r siopwr yn dod ymlaen.

4. "Y mae eisiau siwt o ddillad ar y bachgen hwn." "O'r gorau, eisteddwch yn y gadair hon, os gwelwch yn dda."

5. Y mae'r siopwr yn dangos siwt, ac yn dweud, "Dyma siwt neis. A wnewch chwi wisgo'r got?"

6. Y mae Tom yn edrych ar y siwt ac yn dweud, "Nid oes eisiau'r siwt hon arnaf i. Siwt ddu yw hon, ac yr wyf am gael siwt frown fel sydd gan Trefor."

7. Dywed y siopwr, "Y mae siwt llwyd yn well i fachgen bach na siwt frown, ond os ydych am gael siwt frown, y mae gennyf un."

8. Y mae'r siopwr yn tynnu siwt oddi ar y silff ac yn ei doddi ar y cownter. Y mae Tom yn rhoi'r got amdano.

9. "Mam, dyma hi. Rhaid imi gael hon. Edrychwch, y mae tair poced yn y got, pedair poced yn y wasgod, a dwy boced yn y trowsus."

10. Y mae'r siopwr yn pacio'r siwt mewn papur llwyd, ac yn ei glymu â llinyn. Y mae'r fam yn talu'r siopwr am y siwt, ac y mae'r ddau'n mynd allan i'r stryd eto.




11. Wedi mynd allan i'r pafin â'r parcel o dan ei fraich, y mae Tom yn sefyll, ac yn dweud wrth ei fam,

12. "Diolch yn fawr am y siwt, mam, ond nid oes gennyf goler na thei na hosanau newydd."

13. "Y mae tei frown a choler gwyn a hosanau brown yn y tŷ, Tom. Rhaid iti eu gwisgo hwy gyda'r dillad newydd."

14. Fe fydd Tom yn edrych yn fachgen hardd pan ddaw tê parti'r Ysgol Sul.



#### 4. CHWARAE.

1. Dacw Tom yn rhedeg i'r ysgol. Dewch ar ei ôl i weld beth sy'n bod.

2. Yn yr iard y mae'r bechgyn yn chwarae. Y mae rhai'n rhedeg a rhai'n neidio. Ond b'le mae Tom?

3. Dacw Tom gyda'r bechgyn ar ben draw'r iard. Y maent yn mynd i chwarae rhyw gêm newydd.

4. Y mae Ifan yn mynd ac yn sefyll yn erbyn y wal. Y mae Trefor yn plygu i lawr o'i flaen, ac y mae Geraint yn plygu y tu ôl i Trefor. Yna y mae Rhys a Bili'n plygu y tu ôl i Geraint.

5. Y mae Tom, Gwilym, Huw ac Owen yn sefyll wrth y wal arall. Y mae Tom yn galw, "A ydych yn barod?"

6. Y mae'r pedwar bachgen sy'n plygu i lawr yn ateb, "Ydym." Yna y mae Tom yn rhedeg ac yn neidio dros gefn Bili a Rhys

i gefn Geraint. Neidiwr da yw Tom.

7. Yna y mae Gwilym yn neidio dros gefn Bili ar gefn Rhys. Huw sydd i neidio nesaf. Y mae ef yn neidio'n uchel ac yn aros ar gefn Gwilym. Hwrê! Huw yw'r neidiwr gorau.

8. Y mae Owen yn neidio ar ôl Huw. Nid yw Owen yn neidiwr da fel Huw, ond y mae ef yn neidio ar gefn Bili.


9. Y mae Tom a'i dri ffrind yn canu, "Un, dau, tri, pedwar, pump: Un, dau, tri, pedwar, pump: Un, dau, tri, pedwar, pump-o-ho," ac yn disgyn oddi ar gefn y bechgyn eraill.

10. Rhaid cael tro arall. Huw sy'n neidio gyntaf y tro hwn, yna Gwilym, yna Owen, a Tom yn olaf. Ond y mae'r bechgyn sy'n plygu yn cwmpo i'r llawr, a'r pedwar bachgen arall yn canu.

11. "Ceffylau gwan, codwch i'r lan. Ceffylau gwan, codwch i'r lan." Ac y mae tēm Tom yn cael tro arall.

12. Ond y tro nesaf y mae Owen yn cwmpo oddi ar gefn Bili, ac fe fydd yn rhaid i Tom a'i dri ffrind fynd i blygu i lawr, a Trefor a'i ffrindiau yn cael neidio ar eu cefnau.

13. Ond fe fydd yn rhaid iddynt hwy aros hyd amser chwarae am fod y gloch yn galw'r plant i'r ysgl.



## 5. GWERTHU LLAETH.

1. "Llaeth-o, Llaeth-o." Pwy sy'n galw? Yr wyf wedi clywed y llais hwn o'r blaen. O, dacw ef, Trefor yw.

2. "Trefor, tyrd yma. Tyrd am dro i lan yr afon. Y mae Gwilym a Huw wedi mynd yno."

3. "Na ddof i, Owen. Nid oes gennyf amser i chwarae heddiw. Yr wyf yn gwerthu llaeth."

4. Y mae Trefor yn mynd bob bore dydd Sadwrn gyda Tom Parri, brawd mawr Siân, i werthu llaeth i bobl y pentref.

5. Y mae Trefor yn sefyll wrth ochr Tom yn y car llaeth. Ceffyl bach du sy'n tynnu'r car, a Tom sy'n gyrru'r ceffyl.

6. Yn y car y mae dwy stên fawr ac un stên fach, a bocs mawr yn llawn o boteli. Y mae llaeth yn y poteli hefyd.

7. Y mae Tom yn arllwys llaeth o'r stên fawr i'r stên fach. Y mae ef yn cerdded o ddrws i

ddrws ac yn curo'r drws, ac yn aros.

8. Dacw ferch yn agor drws y tŷ. Y mae jwg yn ei llaw ac y mae Tom yn arllwys llaeth o'r stên fach i'r jwg.

9. Nid yw Trefor yn cario stên. Y mae ef yn cario potel o laeth. Y mae ef yn dod i'r botel i lawr wrth y drws, ac yn curo'r drws.

10. Y mae'r ceffyl du'n mynd yn araf, araf. Ar y groesffordd y mae'r plisman. Y mae ef yn codi ei law ac y mae'r ceffyl yn aros. Y mae Trefor yn neidio o'r car ac yn dal pen y ceffyl.

11. "Hei, Trefor, dewch â photel o laeth i mi." Y mae Trefor yn

cydio mewn potel o'r bocs ac yn ei chario at siop y cigydd.

12. O diar diar, dacw'r botel wedi cwmpo o law Trefor. Y mae'r botel wedi torri, a'r llaeth gwyn yn llifo dros yr heol.

13. Y mae Trefor yn dechrau crio, ond y mae Tom yn galw arno ac yn dweud, "Paid â chrio, Trefor, cydia mewn potel arall o'r bocs."

14. Y mae Trefor yn cydio mewn potel arall ac yn ei chario'n ofalus at ddrws siop y cigydd. Y mae Mrs. Ifans yn ei dalu am y llaeth ac y mae ef yn rhoi yr arian i Tom.



## 6. Y FORWYN FACH.

1. Nid yw Megan yn mynd allan i chwarae ar ddydd Sadwrn. Y mae hi'n aros yn y tŷ i helpu'i mam.

2. Dacw hi'n sefyll wrth ddrws y gegin. Y mae ffedog ganddi, ac yn ei llaw chwith y mae bwced.

Beth sydd yn y bwced? Dŵr, wrth gwrs.

3. Y mae Megan wedi brwsio llawr y gegin â'r brws llawr. Yna y mae hi'n cymryd y bwced a'r dŵr i gael golchi'r llawr.

4. Y mae hi'n codi'r clwtyn llawr o'r dŵr ac yn rhwbio'r llawr ag ef. Yna, wedi gwasgu'r clwtyn yn sych, y mae'n rhwbio'r llawr yn galed i'w sychu.

5. Wedi golchi'r llawr, a oes rhywbeth arall i'w wneud? O, oes, y mae'n rhaid dod i'r celfi yn eu lle, y ford ar ganol y llawr, y gadair fawr wrth ochr y lle tân, a'r cadeiriau eraill wrth y wal.

6. Yna y mae hi'n cymryd clwtyn glân, sych, ac yn rhwbio'r celfi'n galed i sychu'r llwch oddi arnynt.

7. Erbyn amser cinio, y mae'r gegin yn lân, ac y mae Megan yn helpu'i mam i ddodi'r llestri ar y ford.

8. Nid yw Megan wedi golchi llawr y parlwr. Carped coch sydd yno, ac y mae Megan wedi ei ysgubo'n lân.

9. Wedi cinio, y mae'n rhaid golchi a sychu'r llestri a dod i glo ar y tân. A dyna'r gwaith ar ben? O, nage'n wir.

10. Y mae Megan yn helpu'i mam i wneud teisen. Hi sy'n

cario'r pethau a'i mam sy'n gwneud y toes.

11. Y mae'r fam yn dodi'r deisen yn y ffwrn. Y mae tân mawr o dan y ffwrn i grasu'r deisen.

12. A dyna waith y forwyn fach ar ben. Wedi gorffen, y mae Megan yn ymolchi ac yn gwisgo ffrog lân.

13. Erbyn hyn, y mae'n amser tê, a'r deisen yn barod. Ar ôl cael tê a golchi'r llestri, y mae Megan yn mynd allan am dro i weld Mair.

14. Dyna ddiwrnod caled o waith, onid e?



## 7. BACHGEN AR GOLL.

1. Un bore braf yn yr haf, aeth Tom am dro allan i'r wlad i glywed yr adar ac i chwilio am nythod.

2. Yr oedd pob aderyn bach yn canu ar ei orau ar y coed, a'r ŵyn bach yn prancio ac yn brefu yn y caeau.

3. Ond ust! dyna sŵn arall. Nid sŵn canu na sŵn breffu yw hwn. Y mae fel sŵn plentyn yn llefain.

4. Aeth Tom ymlaen, ac yno, yng nghornel y cae, yr oedd bachgen bach yn crio ac yn galw am ei fam. A dyma'r ddau yn dechrau siarad, Tom yn gofyn a'r bachgen bach yn ateb.

5. "Beth sy'n bod, fachgen bach?" "Yr wyf am fynd adref at fy mam, ac ni allaf ffeindio fy ffordd allan o'r cae."

6. "B'le mae eich mam?" "Y mae mam yn aros yn nhŷ fy modryb. Daeth hi a minnau i aros yma am dair wythnos."

7. "Beth yw eich enw, ac o b'le'r ydych yn dod?" "Gwilym Jones yw f'enw, ac yr wyf yn byw yn Aberdâr. Tref yw Aberdâr, ac nid oes yno lawer o goed a chaeau."

8. "A ydych yn colli'ch ffordd yn y dref?" "O, nac wyf. Y mae strydoedd yn y dref ac y mae pafin ar ochr y stryd. Ac yr wyf i bob amser yn cerdded ar y pafin. Ond nid wyf yn gwybod y ffordd trwy'r coed a'r caeau."

9. "Dewch gyda mi," meddai Tom. A dyna'r ddau'n mynd at y glwyd ac allan i'r ffordd fawr.

10. Ar waelod y ffordd gwelodd y bachgen ei fam a rhedodd ati.





## 8. TYNNU LLUN.

1. "Dewch yma, mam. Edrychwch ar fy llun. Yr wyf wedi ei dynnu fy hunan."

2. "Da iawn, Mair. Yr ydych wedi tynnu llun da iawn. Ond nid eich llun chwi yw hwn. Nid yw hwn yn debyg i chwi."

30

3. "O ydyw, mam. Edrychwch ar fy ngwallt. Gwallt hir ydyw a melyn yw ei liw."

4. "Y mae eich gwallt yn dda iawn. Ond un llygad sydd gan y ferch yn y llun. Y mae gennych chwi ddau lygad, onid oes?"

5. "Oes, mam, ac y mae llygad arall y ferch fach yn y llun ar yr ochr arall, ac nid ydych yn ei weld."

6. "Un glust sydd gan y ferch fach hon, ac y mae gennych chwi ddwy glust. A oes clust ar yr ochr arall?"

7. "Oes, mam, y mae un glust ar yr ochr arall. Ac y mae un fraich yno hefyd."

31

8. "Hanner llun sydd ar y bwrdd du, Mair. Ac nid wyf yn gweld un dant yna."

9. "Ie, mam, hanner llun sydd yma. Dim ond llun un ochr. Un glust, un llygad, un foch, un fraich, un goes, hanner trwyn a hanner y ddwy wefus."

10. "Nid oes un dant yn y llun. Y mae'r dannedd y tu mewn i'r ddwy wefus. Ond y mae'r dillad yn iawn."

11. "Nac ydynt, Mair. Un hanner y dillad sydd yma eto. Un hosan, un esgid, un boced a hanner ffrog."

12. "Yr ydych yn iawn, mam. Hanner popeth sydd yma, ond y mae lliw popeth yn iawn. Gwallt

melyn, ffrog las, hosanau gwyn ac esgidiau du. Nid oes sialc coch gennyf i wneud boch goch."

13. "Nac oes, Mair, ond yr wyf yn mynd i'r dref ddydd Sadwrn, ac fe brynaf focs o sialc o bob lliw i chwi."

14. "Yna rhaid i chwi rwbio'r llun hwn allan, Mair, a thynnu llun arall, a doddi dau o bopeth ynddo, a dangos rhes o ddannedd gwyn."

15. "O'r gorau, mam. Fe fyddaf yn tynnu llun wyneb crwn i ddechrau, ac yna gallaf ddodi dau o bopeth i mewn."

16. "Da iawn, Mair. P'un sydd well gennyf, tynnu llun neu wneud symiau?"

17. "O, tynnu llun, mam."



## 9. WEDI BLINO.

1. Nid oes un bachgen yn hoffi chwarae yn fwy na Tom. Bob dydd ar ôl amser ysgol, fe gewch ei weld yn chwarae gyda'i ffrindiau.

2. Y mae ef yn hoff o chwarae pêl, ac nid oes un bachgen yn

gallu rhedeg yn well nag ef. Ond, wedi rhedeg am amser hir, y mae Tom yn blino.

3. Am wyth o'r gloch, y mae ei fam yn galw arno fel hyn, "Tom, y mae'n wyth o'r gloch. Y mae'n bryd iti fynd i'r gwely."

4. Ac y mae Tom yn ateb, "O'r gorau, mam, yr wyf yn barod. Yr wyf wedi blino'n lân wrth redeg ar ôl y bêl!"

5. Y mae Tom yn tynnu ei esgidiau, yn cerdded at droed y grisiau, ac yn dweud, "Nos da, mam; Nos da, dada; Nos da, Mair."

6. Yna, y mae ef yn mynd i fyny'r grisiau, o ris i ris, i'r ystafell wely.

7. Ystafell fach yw hon. Y mae'r gwely ar ganol yr ystafell. Y mae pen y gwely wrth y wal, ac y mae troed y gwely wrth y ffenestr. Y mae bwrdd bach a dwy gadair hefyd yn yr ystafell.

8. Y mae Tom yn tynnu ei ddillad ac yn eu doddi ar y gadair. Yna y mae'n troi dillad y gwely yn ôl—y cwilt coch a gwyn yn gyntaf, ac yna'r blanced.

9. Y mae ef yn penlinio ar y mat wrth erchwyn y gwely, yn doddi ei ddwylo at ei gilydd, ac yn dweud ei bader.

10. Yna y mae'n neidio i'r gwely ac yn doddi ei ben ar y

gobennydd. Y mae'n tynnu'r blanced a'r cwilt drosto.

11. Nid yw Tom yn cadw ei lygaid yn agor. Y mae ef wedi blino, ac nid yw'n hir cyn mynd i gysgu.

12. A ydyw'n cysgu'n hir? Ydyw, y mae'n cysgu drwy'r nos. Y peth cyntaf a glyw ef yw, "Tom, y mae'n wyth o'r gloch."

13. Y mae Tom yn adnabod llais ei fam, ac yn ateb, "O'r gorau, mam, dyma fi'n dod." Y mae'n neidio o'r gwely ac yn dechrau gwisgo ar unwaith.

14. Nid yw Tom byth wedi blino yn y bore, ond y mae bob amser yn barod i chwarae eto.



## 10. Y PICNIC.

1. "A ddewch chwi i gael picnic yn y cae o dan ein tŷ ni?" gofynnai Siân Parri wrth ddod o'r ysgol un prynhawn.

2. "Diolch yn fawr i chwi, Siân," meddai'r merched bob un. "Fe fyddwn yn falch iawn i gael dod."

3. "Ni bydd eisiau i chwi gario llestri na lliain, na bara, nac ymenyn, na llaeth," meddai Gwen. "Y mae gennym ni ddigon i bawb."

4. Prynhawn dydd Sadwrn, dacw Mair a Megan yn mynd gyda'i gilydd ac yn cerdded ar y llwybr trwy'r caeau. Wedi iddynt ddod at fferm Pen y Cae, gwel-sant Gwen a Beti yno o'u blaen, ac yr oedd Siân a'i mam yn falch iawn i'w gweld.

5. "'Nawr, Siân," meddai Mrs. Parri, "cariwch y pethau allan i'r cae o dan y tŷ." A dyma'r merched bob un yn dechrau helpu.

6. Dododd Mair y lliain gwyn i lawr ar y borfa, a dododd Beti'r llestri—y cwpanau, y soseri, y platiau, y cyllyll a'r llwyau—yn eu lle. Cariodd Megan y basn siwgr a'r jwg llaeth, a dododd hwy ar ganol y lliain.

7. Siân oedd yn gofalu am y bwyd. Dacw hi'n cario'r bara 'menyn a'r deisen, a dysgl fach â jam ynddi. Yna y mae hi'n gofyn i Mair, "Beth sydd gennych yn y fasedg yna?"

8. Tynnodd Mair barsel allan o'r fasedg ac agorodd ef, a gwenodd y merched wrth weld mai tarten afalau oedd.

9. "Diolch yn fawr i chwi, Mair," meddai Siân. "Y mae'n

rhaid inni gael hufen gyda'r darten afalau." Rhedodd i'r tŷ a daeth yn ôl â llond jwg o hufen.

10. Daeth Mrs. Parri â'r tebot a'r jwg â dŵr poeth, ac yna yr oedd popeth yn barod. Eisteddodd y merched i lawr ar y borfa, a Mair y ferch hynaf, oedd yn arllwys tê.

11. Yr oedd pob un yn bwyta am y gorau ac ni welsant fod rhywun arall yn y picnic. Spot, y ci, ydoedd, yn eistedd i ofyn am damaid.

12. Chwarddodd y merched am hyn, a chafodd Spot lwmp o siwgr a darn mawr o deisen. Wedi cael hyn, "Bow-wow!" meddai, ac i ffwrdd ag ef.



## 11. AM DRO I'R WLAD.

1. Hylo, dacw'r bws hanner awr wedi wyth yn dod i fyny'r stryd. Y mae'n aros, ac y mae rhywun yn dod allan. Tom a Mair ydynt. B'le maent hwy wedi bod?

2. "I b'le'r aethoch chwi yn y bws, Tom?" "Fe aeth Mair a

mi am dro i'r wlad, Gwilym. Y mae gennyf ewythr a modryb yn byw mewn fferm. Enw'r fferm yw y Berth Lwyd."

3. "Dyna beth braf yw byw mewn fferm, onid e? Yr wyf yn siwr i chwi gael amser da yno. A oes plant yn fferm eich ewythr?"

4. "Oes, y mae Dafydd a Gwen yno. Y mae Dafydd yn gefnder a Gwen yn gyfnither i Mair a mi. Plant f'ewythr a'm modryb ydynt hwy."

5. "Sut le oedd yn y wlad, Tom?" "O, y mae lle braf iawn yno. Nid oes llawer o dai, ond y mae digon o gaeau gwyrdd a choed mawr yno ym mhob man."

6. "A oes adar yno?" "Oes, yn wir, y mae'r adar yn canu trwy'r dydd o fore hyd nos. Ac y mae eu nythod ym mhob perth, ym mhob coeden, ac ar do pob tŷ. A weli di'r twll yma sydd yn fy nhrowsus?"

7. "Gwelaf." "Wel, wrth fynd i edrych am nyth mewn coeden y cefais i'r twll hwn. Rhaid imi ddweud y stori ryw bryd eto."

8. "A ydyw'r bws yn mynd heibio i fferm y Berth Lwyd?" "Nac ydyw, y mae'r bws yn mynd ar y ffordd fawr.

9. "Fel hyn y mae mynd i'r Berth Lwyd. Wedi mynd ar hyd y ffordd fawr am amser hir, a phasio llawer o gaeau, yr ydym

yn gweld y fferm draw ar ochr y bryn.

10. "Yna yr ydym yn stopio'r bws ar bwys y glwyd wen fawr. Yr ydym yn disgyn ac yn agor y glwyd.

11. "Wedi mynd trwy'r glwyd, yr ydym yn y cae. Nid yw'r ffordd fawr yn mynd trwy'r cae, ond yr ydym yn cerdded ar y llwybr sydd wrth ochr y berth.

12. "Yn y cae y mae defaid ac wŷn, a phan mae'r wŷn bach yn ein gweld y maent yn prancio, a phob un yn rhedeg at ei fam. Dyna rai bach pert yw'r wŷn, onid e?"

13. "Ar ôl cerdded trwy'r cae a chroesi'r gamfa, dyma ni yn y fferm."





## 12. Y NYTH.

1. "Gad imi glywed y stori am y nyth ar fferm y Berth Lwyd, Tom?" gofynnodd Gwilym Roberts.

2. "O'r gorau, dyma hi, Gwilym," meddai Tom. "Wedi inni ddod at y fferm, yr oedd Dafydd a Gwen yn falch iawn i'n

gweld, ac yn barod i ddangos popeth inni.

3. "Wedi cael tē aeth Gwen a Mair i'r caeau i gasglu blodau, ac aeth Dafydd a minnau i edrych am nythod.

4. "Pan oedd Dafydd yn dringo i ben coeden, yr oedd dau aderyn bach yn dweud 'Twi-twi-twi' yn gas iawn. Yr oedd eu nyth fach hwy yn y goeden honno.

5. "'Tyrd i fyny, Tom, iti gael gweld yr wyau bach pert hyn,' meddai Dafydd. Dringais innau'n araf hyd at y gangen gyntaf.

6. "Nid oeddwn yn hoffi clywed y ddau aderyn yn dweud, 'Twi-twi-twi' o hyd. Galwodd Dafydd, 'Rho dy law imi, Tom.'

7. "Yr oeddwn yn cydio yn y gangen ag un llaw, ac yn barod i roi'r llaw arall i Dafydd, pan glywais 'Twi-twi-twi-twi-twi' heb stopio wrth fy nghlust.

8. "Cefais y fath ofn fel y codais fy nwy fraich i fyny. Collais fy nhroed ac i lawr â mi yn gyflym, gyflym.

9. "Wedi imi ddod i'r gwaelod, gwelais y twll yn fy nhrowsus, clywais Dafydd yn chwerthin a'r ddau aderyn bach yn dweud 'Twi-twi-twi' yn uwch nag o'r blaen.

10. "Yr oeddwn yn meddwl eu bod hwy hefyd yn chwerthin am fy mhen, ac yr oedd arnaf ofn rhoi cynnig arall."